

Cydgysylltydd

Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarth Gogledd Cymru x 2

Swydd 1 – Gogledd-orllewin Cymru, Ynys Môn, Conwy a Gwynedd

Swydd 2 – Gogledd-ddwyrain Cymru, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam

Mawrth 2016 – Mawrth 2017

Ffi: £24,000 – ar gyfer pob swydd

Swyddi i bobl sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain yw'r rhain a bydd angen i'r ymgeiswyr fod yn hunangyflogedig a bod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Telir £160 y diwrnod, 7 awr a 30 munud fydd hyd pob diwrnod, a bydd angen gweithio 150 diwrnod y flwyddyn.

Mae Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Rhanbarth Gogledd Cymru yn awyddus i gyflogi dau gydgysylltydd rhanbarthol brwdfrydig i reoli'r rhwydwaith, y naill yn y Gogledd-ddwyrain a'r llall yn y Gogledd-orllewin. Bydd disgwyl i'r cydgysylltydd ehangu a gwella profiadau a chyfleoedd ym maes y celfyddydau mewn ysgolion drwy greu cysylltiadau rhwng: athrawon, addysgwyr a phartneriaid yn y sector addysg; ymarferwyr, sefydliadau a lleoliadau sy'n ymwneud â'r celfyddydau; cyrff diwylliannol a chyrrff treftadaeth a lleoliadau fel amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau; darparwyr celf awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau cerddoriaeth; partneriaid sy'n hybu'r celfyddydau a diwylliant mewn addysg uwch a'r sector diwydiannau creadigol.

Cefndir

Ym mis Rhagfyr 2015, gwnaeth Partneriaeth Celfyddydau Rhanbarthol Gogledd Cymru (y Bartneriaeth) gais i Gyngor Celfyddydau Cymru i weithredu fel y brif bartneriaeth yn y gwaith o redeg Celfyddydau ac Addysg Rhanbarth Gogledd Cymru dros y pum mlynedd nesaf, ac roedd y cais yn llwyddiannus.

Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys Swyddogion Celfyddydau ac Addysg Llywodraeth Leol sy'n cydweithio i ddatblygu a gweithredu prosiectau celf rhanbarthol sy'n defnyddio'r sgiliau a'r arbenigedd y gall y swyddogion hyn eu cynnig. Partneriaeth rhwng y chwe chyngor sir yn y Gogledd yw'r prosiect hwn.

Bydd un swyddog NWRAP ym mhob sir yn gyfrifol am arwain rhaglen y rhwydwaith yn eu hardal, a chaiff hon ei chydgysylltu a'i gyflenwi gan y Cydgysylltwyr Rhwydwaith. Bydd disgwyl i'r cydgysylltwyr weithio gyda'r prif swyddogion hyn a chydweithio hefyd â swyddogion GwE, cyrff ac ymarferwyr ym myd y celfyddydau ac ysgolion, yn ogystal â chydgysylltwyr y tri rhwydwaith arall yng Nghymru, i gyflwyno rhaglen o weithgareddau drwy'r sir, y rhanbarth a Chymru gyfan o bosibl.

Y nod yw bod yn gorff agored, democrataidd a chynhwysol er mwyn sicrhau bod rhaglen y rhwydwaith yn ymateb i'r disgyblion, yr ysgolion yr addysgwyr, y cyrff diwylliannol a'r artistiaid y mae'n eu gwasanaethau.

Mae aelodaeth y rhwydwaith yn anffurfiol ac mae croeso i unrhyw gorff neu unigolyn ymuno os ydynt yn gweld budd a gwerth mewn gwneud hynny. Cawn ein harwain gan set glir o werthoedd a meini prawf ar gyfer cyfraniadau, ac rydym yn awyddus i hyrwyddo, datblygu, annog a dysgu oddi wrth aelodau'r rhwydwaith.

Mae'r rhwydwaith yn cynnig y bydd y cydgysylltydd yn darparu'r gweithgareddau yn y pum maes craidd a amlinellir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

- 1. Trefnu rhaglen datblygiad proffesiynol o safon i athrawon, artistiaid a chyrrff diwylliannol.** (Bydd angen i'r Rhwydweithiau weithio gyda'r Consortia Addysg Rhanbarthol a phartneriaid eraill i alluogi athrawon i ddatblygu a rhannu gwybodaeth ac arfer da gydag ysgolion eraill, a hefyd i gyflwyno rhaglen hyfforddiant yn y celfyddydau i athrawon ac ysgolion.)
- 2. Sefydlu a chydgyssylltu cyfleoedd rhwydweithio i athrawon, artistiaid a sefydliadau ym myd y celfyddydau, treftadaeth a'r byd creadigol a diwylliannol – yn ddigidol ac wyneb yn wyneb.** (Bydd disgwyl i'r rhwydweithiau ddatblygu cysylltiadau cryf a rhagweithiol â'r Consortia Addysg Rhanbarthol yn eu hardal a gwasanaethau addysg eu hawdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau cerddoriaeth)
- 3. Cysylltu ysgolion ag artistiaid a chyrrff celfyddydol - gweithredu fel 'brocer'.** (Bydd y Rhwydwaith yn creu cronfa ddata o ymarferwyr a chyrrff sy'n cynnig prosiectau celfyddydol addysgol o safon yn eu hardaloedd. Bydd hyn yn helpu i gasglu gwybodaeth am y rhai sydd ar gael ac i nodi arfer da ac arbenigedd mewn perthynas â'r gwaith hwn. Bydd y Rhwydwaith yn gweithredu fel brocer rhwng ysgolion a chyrrff celfyddydol sy'n gallu cynnig gwasanaethau o safon, ac arbenigedd eang.)
- 4. Casglu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael yn rhanbarthol a lledaenu engreifftiau o arfer da.** (Bydd y Rhwydwaith yn casglu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael yn rhanbarthol a hysbysebu digwyddiadau a chyfleoedd ar y porthol dysgu creadigol drwy'r rhwydweithiau rhanbarthol presennol. Bydd y Rhwydweithiau hefyd yn casglu gwybodaeth am brosiectau perthnasol a diddorol – gall hyn gynnwys astudiaethau achos, gwaith gwerthuso, pecynnau cymorth, deunyddiau hyfforddi a chanllawiau – yna gellir rhannu'r wybodaeth hon ar y porthol.)
- 5. Rhoi rhaglen Hyrwyddwyr y Celfyddydau Lleol ar waith** (Athrawon ym myd y celfyddydau fydd Hyrwyddwyr y Celfyddydau Lleol, a byddant yn awyddus i rannu eu sgiliau, eu harbenigedd a'u brwdfrydedd gydag athrawon ac ysgolion eraill gan ymgymryd â rôl eiriolwyr cyhoeddus ar ran y celfyddydau mewn addysg. Caiff yr Hyrwyddwyr eu dewis drwy ymgynghori ag ysgolion, cyrrff celfyddydol a'r Consortia Addysg Rhanbarthol. Bydd y Rhwydwaith yn rhoi arian i ysgolion i ryddhau'r Hyrwyddwyr hyn)

Llywodraethu - Grŵp Llywio Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Gogledd Cymru

Swyddogion Datblygu'r Celfyddydau awdurdodau lleol

Ynys Môn: Ceri Williams a Nicola Gibson

Conwy: Sian Young a Julie Meehan

Sir Ddinbych: Sian Fitzgerald

Sir y Fflint: Gwenno Eleri Jones a Trefor Lloyd Roberts

Gwynedd: Nest Thomas a Gwawr Wyn Roberts

Wrecsam: Steffan Jones-Hughes a Jo Marsh

Aelod o'r Consortiwm Addysg – Rhys Howard Hughes, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

Dau Gynrychiolydd Addysg o'r awdurdodau lleol

Dau aelod o'r Rhwydwaith a gaiff eu hethol bob blwyddyn

Swyddog Rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru (Arsylwi)

Cydgysylltydd Rhwydwaith x 2

Bydd y rhwydwaith yn cyflogi **dau gydgyssylltydd sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain**; y naill yn y Gogledd-ddwyrain a'r llall yn y Gogledd-orllewin. Byddant yn gweithio dan arweiniad y Grŵp Llywio. Bydd disgwyl i'r cydgysylltwyr drefnu a rheoli rhaglen weithgareddau, casglu gwybodaeth ar gyfer y Grŵp Llywio a chynorthwyo â'r gwaith clericio a gweinyddol. Byddant hefyd yn gyfrifol am rannu'r holl wybodaeth ag ysgolion y rhanbarth a chasglu gwybodaeth gan artistiaid a sefydliadau. Byddant yn hybu gwaith y Rhwydwaith drwy drefnu lleoliadau i gynnal hyfforddiant, yn anfon gwybodaeth i'w chynnwys ar y porthol, yn trefnu dyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd, yn sicrhau bod gan Hyrwyddwyr y Celfyddydau yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud eu gwaith. Byddant yn rheoli'r rhaglen weithgareddau a'r gyllideb dan oruchwyliaeth y Grŵp Llywio.

Yr Awdurdodau perthnasol fydd yn gyfrifol am reoli'r cydgysylltwyr o ddydd i ddydd.

Y Tasgau

Cydgysylltu a gweinyddu

- Trefnu cyfres o ddiwyddiadau a gweithgareddau hyfforddi i aelodau'r Rhwydwaith, athrawon, artistiaid, sefydliadau, gan gynnwys archebu lleoliadau a hyfforddwyr, neilltuo lle i'r rhai sydd am gymryd rhan ac unrhyw dasgau gweinyddol eraill
- Cydgysylltu ceisiadau gan artistiaid a sefydliadau sy'n awyddus i gael eu cynnwys ar gronfa ddata'r Rhwydwaith
- Cydgysylltu rhaglen Hyrwyddwyr y Celfyddydau
- Casglu gwybodaeth ar gyfer y cylchlythyr a anfonir drwy'r e-bost bob tymor
- Gweithio gyda chydgyssylltwyr y rhwydwaith ar hyd a lled Cymru i ddatblygu cynhadledd genedlaethol
- Anfon gwybodaeth am arfer gorau i'w chynnwys ar wefan 'HWB'
- Marchnata'r rhwydwaith drwy'r rhanbarth a denu aelodau newydd
- Creu presenoldeb ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol i Rwydwaith Gogledd Cymru

Cyllid

- Codi arian i'r rhwydwaith drwy ddenu nawdd ar ffurf nwyddau a nawdd ariannol preifat a gwneud ceisiadau am grantiau gan sefydliadau ac ymddiriedolaethau
- Datblygu gweithgareddau masnachol amrywiol i gynhyrchu incwm
- Rheoli cyllid y rhwydwaith i sicrhau gwerth am arian

Llywodraethiant

- Bod yn bresennol mewn o leiaf pedwar o gyfarfodydd y Grŵp Llywio bob blwyddyn a chyflwyno adroddiad a dadansoddiad ariannol ym mhob cyfarfod.
- Casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i baratoi'r cyfrifon blyneddol a'r adroddiad blyneddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannu.

Amcangyfrifir y bydd angen treulio tri diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd i gysylltu a rheoli'r Rhwydwaith.

Telir cyfanswm o £24,000 i'r ymgeisydd llwyddiannus a bydd hyn yn cynnwys yr holl gostau teithio, cynhaliaeth a llety. Cyfrifwyd y bydd hyn yn cyfateb i £160 y dydd, a fydd yn 7 awr a 30 munud o hyd, am 150 diwrnod y flwyddyn. Mae'n hanfodol i'r cydgysylltwyr weithio, gan amlaf, yn ystod oriau ysgol, sef rhwng 9am a 3.30pm.

Y Person – bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fedru dangos y canlynol:-

- ymrwymiad i fod ar gael rhwng mis Mawrth 2016 a mis Mawrth 2017 i ddechrau, gyda'r dewis i barhau yn y swydd am ddwy flynedd arall, gan ddibynnu ar berfformiad
- cefndir proffesiynol ym myd gweinyddu'r celfyddydau a rheoli prosiectau a phrofiad o gynllunio prosiectau a'u rhoi ar waith
- profiad o weithio gydag ysgolion a datblygu prosiectau i ysgolion
- gwybodaeth am y cyfryngau cymdeithasol a diweddarau cynnwys ar y we
- y gallu i ddefnyddio TGCh
- y gallu i reoli'ch amser eich hun yn effeithiol i sicrhau y caiff rhaglen y Rhwydwaith ei rhoi ar waith yn llwyddiannus
- profiad o baratoi adroddiadau clir a chryno a'u cyflwyno'n ysgrifenedig ac ar lafar
- profiad o godi arian gan noddwyr preifat a ffrydiau arian grant
- y gallu i reoli cyllidebau a chyfrifon cymhleth
- mae angen bod yn hunangyflogedig a bod â'ch swyddfa a'ch yswiriant atebolrwydd cyhoeddus eich hun
- mae'n hanfodol bod â thrwydded yrru ddilys a cherbyd y gallwch ei ddefnyddio
- mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gwenno Eleri Jones ar 01352 702471.

Sut i wneud cais

I wneud cais am swydd Cydgysylltydd Rhwydwaith y Celfyddydau ac Addysg Rhanbarth Gogledd Cymru, anfonwch lythyr cais yn amlinellu sut y byddech yn ymgymryd â'r gwaith, pa swydd rydych yn ymgeisio amdani (Swydd 1 - y Gogledd-orllewin ynteu Swydd 2 - y Gogledd-ddwyrain) a CV cyfredol yn tynnu sylw at unrhyw brofiad a chymwysterau perthnasol ynghyd ag enw a chyfeiriad dau berson a all roi geirada i chi.

Gall unigolion neu sefydliadau wneud cais i fod yn Gydgysylltydd y Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Rhaid i'r ceisiadau ddod i law erbyn 9am ddydd Gwener 19 Chwefror 2016

Anfonwch eich cais drwy'r post i'r cyfeiriad a ganlyn:

Cyngor Sir y Fflint
Prif Swyddfa Hamdden a'r Llyfrgelloedd
Llawr Cyntaf
Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy
Gorllewin Ffordd Caer
Queensferry, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 1SA

neu drwy'r e-bost at: gwenno.e.jones@flintshire.gov.uk

Cyfweliadau

Cynhelir y cyfweliadau yng Nghyngor Conwy yn ystod yr wythnos yn dechrau 7 Mawrth 2016



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wreccsam



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales